# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 21.03.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Evie M. Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Peter Read, Ieuan Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Gwenan M. Williams (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**1. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – VICTORIA HOTEL, STRYD YR WYDDFA, PENYGROES, CAERNARFON**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ymgeisydd: Prif Arolygydd Peter Gaffey (Heddlu Gogledd Cymru)**

**Eraill ar ran yr Heddlu: Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)**

**Ar ran y trigolion lleol: Parch Deian Evans a'r Mri Ifan Glyn Jones ac Elwyn Jones-Griffith**

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Dyfed Edwards (aelod lleol), Mr Hywel Williams AS a Mr Alun Ffred Jones AC

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded Victoria Hotel, Stryd yr Wyddfa, Penygroes, Caernarfon. Yn ystod yr wythnos ddiwethaf derbyniwyd gwybodaeth gan ddeilydd y drwydded ei bod yn ildio'r drwydded ar 15 Mawrth 2012 ac felly'n deillio o hynny nid oedd trwydded i'w adolygu. Fodd bynnag, cysylltodd perchennog yr eiddo â'r Uned Drwyddedu yn datgan ei pharodrwydd i'r drwydded gael ei drosglwyddo i'w henw hi ac oherwydd hynny 'roedd yna drwydded yn parhau i fodoli ac fe allai fod yn destun adolygiad. Nododd bod y perchennog yn byw yn Awstralia, ac er na allai fod yn bresennol, 'roedd wedi bod yn gohebu â'r heddlu. Derbyniwyd llythyrau gan y Cyngor Cymuned, Aelod Lleol y Cynulliad, Aelod Seneddol Lleol, yr aelod lleol, Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Trem yr Wyddfa, Cyngor Eglwysi Penygroes a thrigolion cyfagos yn cefnogi'r adolygiad.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii. Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Ar ran yr heddlu, cadarnhaodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu yr ildiwyd y drwydded ar 15 Mawrth 2012 ac i berchennog yr eiddo gysylltu ag Uned Drwyddedu'r Cyngor

yn datgan ei pharodrwydd i'r drwydded gael ei drosglwyddo i'w henw hi a derbyniwyd yr holl ddogfennaeth perthnasol ganddi dechrau'r wythnos hon. Cysylltodd hefyd â'r heddlu yn datgan bodlonrwydd i dderbyn yr amodau a argymhellir gan yr heddlu yn yr adolygiad gan gynnwys cau'r eiddo am dri mis. Nododd bod y problemau a gafwyd gyda'r eiddo yn deillio o ddiffyg rheolaeth ar ran cyn ddeilydd y drwydded. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r problemau a gafwyd, 'roedd o'r farn y dylid atal y drwydded eiddo tros dro am gyfnod o ddim mwy na thri mis, ac y dylid cynnwys yr amodau a restrwyd yn eu cais ar y drwydded ynghyd â'r amodau a nodwyd yn y cynllun gweithredu a baratowyd yn y cyfarfod Cam 2. Datganodd y perchennog hefyd ei bod yn awyddus ac yn fodlon cydweithredu'n llawn â'r heddlu.

Manteisiodd rhai o'r trigolion lleol oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Y cafwyd problemau gyda'r eiddo ers y cymerwyd rheolaeth o'r lle y llynedd gan cyn ddeilydd y drwydded.
- Effeithio ar fwynderau'r trigolion lleol a'r gymdeithas yn gyffredinol.
- Problemau gyda rhai o ddefnyddwyr yr eiddo'n yfed ac yn ysmygu ar y stryd
- Mai dymuniad yr ardal yw bod yr eiddo sy'n ddolur llygad ar hyn o bryd, yn cau yn barhaol.
- Y cytunir â'r amodau a argymhellir gan yr heddlu ond yn bryderus parthed yr hyn fyddai'n digwydd unwaith i'r eiddo ailagor.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD**
**a) Atal trwydded yr eiddo am gyfnod o dri mis.**
**b) Addasu amodau'r drwydded drwy ychwanegu'r amodau canlynol -**
**i) Caniatau gwerthu alcohol a cherddoriaeth wedi ei recordio hyd at 23.00 bob dydd (ar hyn o bryd 'roedd yn 00.00 dydd Llun i ddydd Iau, 01.00 dydd Gwener a dydd Sadwrn a 23.30 dydd Sul) a lleihau'r oriau ar gyfer cerddoriaeth fyw i 23.00 bob dydd (ar hyn o bryd 'roedd yn 00.00 dydd Llun i ddydd Sadwrn a 23.30 dydd Sul). Yna, byddai'n ofynnol i'r eiddo gau am 23.30 bob dydd.**
**ii) Bod yr eiddo'n gosod offer teledu cylch cyfyng digidol fydd yn cofnodi pob rhan o'r eiddo sydd ar agor i'r cyhoedd ac yn sicrhau eu bod yn cynnal a chadw'r offer a'i fod yn gweithio'n iawn drwy gydol yr amser. Bydd y system yn cynnwys o leiaf un camera sy'n cofnodi delweddau clir o wynebau pob unigolyn sy'n dod i mewn i'r eiddo. Rhaid i'r system recordio a storio recordiadau am o leiaf 31 diwrnod mewn fformat y gellir ei adfer ar gais.**
**iii) Ar gais unrhyw Swyddog Heddlu neu unrhyw un arall sy'n cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru, neu unrhyw aelod awdurdodedig o'r awdurdod lleol, bydd staff yr eiddo'n rhoddi'r delweddau a gofnodwyd ar ffurf disg ynghyd ag unrhyw feddalwedd sy'n angenrheidiol i'w wylio, i'r swyddog neu'r cynrychiolydd sy'n gwneud cais amdanynt ar unwaith. Pe na byddai'n bosibl am ba bynnag reswm i drosglwyddo'r delweddau ar adeg derbyn y cais, bydd yr eiddo'n danfon y delweddau o fewn 24 awr o dderbyn y cais, i swyddfa enwebedig yr awdurdod hwnnw, sef yn achos Heddlu Gogledd Cymru, Gorsaf Heddlu Penygroes.**
**iv) Cynnwys pob cam gweithredu fel a nodir yn y Cynllun Gweithredu Cam 2 ar y drwydded eiddo gan ychwanegu "Ni chaniateir ysmygu tu allan i flaen yr eiddo".**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – ALBERT INN, 10 SEGONTIUM TERRACE, CAERNARFON**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:</u>**

**Ar ran yr Albert Inn, 10 Segontium Terrace, Caernarfon:** Mr Mark Brown (Cyfreithiwr ar ran deilydd y drwydded) a Mr Howard Mitchell (Deilydd y drwydded)

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd yn rhoi manylion ar gais ar ran yr Albert Inn, 10 Segontium Terrace, Caernarfon i wyro trwydded i ganiatau ymestyn oriau gwerthiant alcohol a cherddoriaeth wedi ei recordio rhwng 11.00 a 01.00 ac oriau agor i'r cyhoedd rhwng 11.00 a 01.30 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn. Nododd mai'r oriau a ganiateir ar hyn o bryd yw gwerthiant alcohol a cherddoriaeth wedi ei recordio rhwng 11.00 a 00.00 ac oriau agor i'r cyhoedd rhwng 11.00 a 00.30 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub na'r Gwasanaeth Cynllunio unrhyw sylwadau ar y cais. Derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cais gan Gyngor Tref Caernarfon ac hefyd gan un o'r trigolion cyfagos.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

iii Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau

iv Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

vii Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, nododd cyfreithiwr ar ran deilydd y drwydded y sylwadau canlynol –

- Y gofynnir am ymestyn yr oriau yn bennaf oherwydd yr angen i'r busnes ffynnu.
- Bod deilydd y drwydded wedi bod yn yr eiddo ers pum mlynedd ac nad yw'n fwriad ganddo i newid natur y lle o fod yn dafarn gymdogaeth leol.
- Bod rhai o'r cwsmeriaid rheolaidd wedi gofyn am ymestyn yr orau ar ôl hanner nos er arbed iddynt symud i eiddo trwyddedig eraill yn y dref ar ôl hynny. Byddai hyn o fantais i'r busnes, sydd ar hyn o bryd yn wynebu problemau ynghyd â'r hinsawdd economaidd bresennol, argaeledd cwrw rhad mewn archfarchnadoedd a'r costau rhedeg uwch.
- Nad yw'r Heddlu na'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi rhoddi sylwadau ar y cais ac 'roedd hynny'n profi bod y dafarn yn cael ei redeg yn dda. Nid oes achosion o niwsans nac anhrefn yn bodoli yno.

- Cadarnhaodd bod y rhybudd a osodwyd ar yr eiddo yn rhoddi manylion am y cais am drwydded wedi ei arddangos mewn man amlwg.
- Y lleolwyd y dafarn mewn stryd dawel gyda ychydig iawn o drafnidiaeth yn tramwyo ar ei hyd.
- Bod deilydd y drwydded yn ceisio cydweithio â'r trigolion cyfagos ac nid oedd unrhyw fwriad i ymestyn yr oriau yn ystod yr wythnos.

Nid oedd y gwrthwynebwyr yn bresennol yn y cyfarfod i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr.

Nododd y Swyddog Priodoldeb, pan ganiatawyd y cais gwreiddiol, fe roddwyd amodau safonol yr adeg hynny ynglyn ag atal sŵn a.y. Yn anffodus nid oeddynt wedi eu cynnwys ar y drwydded oherwydd amryfusedd gweinyddol a rhoddodd fanylion am yr amodau hynny i'r is-bwyllgor. Bwriedir cynnwys yr amodau hyn yn y drwydded yn dilyn penderfyniad y pwyllgor heddiw. Mewn ymateb, hysbysodd deilydd y drwydded ei fod yn ymwybodol o'r amodau hyn.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded yr Albert Inn, 10 Segontium Terrace, Caernarfon fel a ganlyn –**
**a) Caniatau cerddoriaeth wedi ei recordio (paragraff F) a gwerthu alcohol (paragraff M) rhwng 11.00 a 01.00 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn.**
**b) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd (paragraff O) rhwng 11.00 a 01.30 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn.**
**c) Caniatau awr ychwanegol ar Wyliau Banc, Noswyl Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan yn berthnasol i'r paragraffau uchod.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Ar derfyn y cyfarfod cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliad y Rheolwr Trwyddedu, Mr Amlyn ab Iorwerth diwedd y mis hwn. Diolchodd iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor gan ddymuno ymddeoliad hapus iddo.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.30pm